Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy
RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL: 48/2023
DYDDIAD CYHOEDDI: 25/04/2023

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwerthusiad Lleoedd Lleol ar gyfer Natur 2021-22

**Crynodeb**

## 1. Y Rhaglen

1.1 Sefydlwyd y rhaglen Lleoedd Lleol dros Natur (LPfN) ym mis Rhagfyr 2019 gyda'r prif ffocws o 'greu natur ar stepen eich drws ar raddfa a chyflymder'. Nod LPfN yw ymgysylltu â chymunedau i gymryd rhan yn y broses o greu a gwella mannau gwyrdd i gefnogi 'natur ar stepen eich drws', yn hytrach na chymunedau sy'n dderbynwyr goddefol neu'n arsylwyr o natur. Mae'r rhaglen yn ceisio annog ac ariannu grwpiau cymunedol, ar sail 'dechrau yn y gwaelod', i gymryd rhan mewn tyfu ar raddfa fach mewn ardaloedd o fewn eu cymunedau. Mae'n targedu ardaloedd trefol ac rhannol-drefol a mannau cyhoeddus sydd heb fynediad at natur, a chymunedau difreintiedig a dananfantais yn benodol. Fodd bynnag, mae'r diffiniad o amddifadedd, tra yn gwneud defnydd o'r diffiniadau a mesuriadau safonol, yn parhau i fod yn gymharol hyblyg.

1.2 Mae nifer o 'fesurau cymedrol' wedi cael eu nodi ar gyfer y rhaglen, sydd â'r bwriad o gael effaith leol mewn cymunedau ledled Cymru:

- Cynyddu plannu blodau gwyllt; Creu 2,000 o safleoedd cynefin peillwyr
- Adfer neu greu 200 o berllannau cymunedol, gan feithrin ffrwythau brodorol
- Cynyddu cyfleoedd tyfu bwyd cymunedol trwy greu 1,000 o safleoedd tyfu bwyd cymunedol gan gynnwys darparu rhandiroedd
- Annog blodau gwyllt a gwella bioamrywiaeth drwy newid arferion torri gwair awdurdodau lleol (& awdurdodau cyhoeddus eraill) a chynyddu ardaloedd dolydd ar dir llethrog
- Cynyddu plannu coed yn lleol, gan gynnwys coed stryd, perllannau a choetiroedd bach
- Lleihau'r defnydd o blaladdwyr
- Creu 100 o goetiroedd dwys ac amrywiol, pob un maint cwrt tenis
- Gwella mynediad y cyhoedd at ddŵr yfed
- Creu 50 cynllun creu cynefinoedd mewn gorsafoedd rheilffordd a chyfnewidfeydd trafnidiaeth
- Gerddi synhwyraidd at ddibenion therapiwtig, a ddarperir mewn partneriaeth ag elusennau iechyd a'r GIG yng Nghymru.

1.3 Mae tri chynllun (neu ganghen) yn dod o dan y rhaglen LPfN gyffredinol. Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) yn gweinyddu'r mwyaf ( gyda chyllideb o £6m yn 2021-222), drwy ei rôl gyda Phartneriaethau Natur Lleol (LNP) Cymru, Rhwydwaith Adfer Natur, gyda cydlynwyr ym mhob Awdurdod Lleol (LA), ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol

(NPA) ledled Cymru. Dosberthir y gyllideb yn uniongyrchol i gydlynwyr LNP, gan eu galluogi i gynllunio a darparu prosiectau mawr a fydd yn cael mwy o effaith ar fioamrywiaeth yr ardal. Mae aelodaeth pob LNP yn amrywio ond gall gynnwys sefydliadau amgylcheddol, grwpiau cymunedol ac unigolion. Yn y flwyddyn ariannol 2021-22, cyflwynwyd 'Cronfa Her' hefyd lle gall LNPs gael gafael ar gyllid prosiect pellach drwy broses ymgeisio gystadleuol.

1.4 Mae cynllun Cadw Cymru'n Daclus (KWT) yn dosbarthu pecynnau 'Cychwyn' a 'Datblygu' i grwpiau cymunedol er mwyn darparu 'natur ar stepen eich drws'. Mae KWT hefyd yn rhoi cefnogaeth ymarferol ar lawr gwlad. Mae pob un o'r pecynnau sydd wedi eu talu amdanynt yn barod yn cynnwys planhigion brodorol, offer a deunyddiau eraill i helpu grwpiau i greu eu gardd gymunedol eu hunain ar gyfer natur. Mae pecynnau Cychwyn yn fach, a dim ond tua hanner diwrnod o hyfforddiant, a ddarperir gan KWT, sydd ei angen ar wirfoddolwyr. Mae'r pecynnau Datblygu mwy yn cymryd tua 20 diwrnod i'w cwblhau. Rhoddir blaenoriaeth i brosiectau mewn ardaloedd trefol, rhannol-drefol neu ddifreintiedig gyda mynediad cyfyngedig at natur, yn ogystal â grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli sy'n ymgysylltu â'r cynllun. Mae rhain yn cynnwys rhai o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, grwpiau sy'n cynrychioli pobl anabl a rhai o gefndiroedd difreintiedig. Derbyniodd y gangen hwn £1.8m o gyllid yn 2021-22.

1.5 Mae cangen Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (NLHF) yn gynllun grant cyfalaf a fwriedir i alluogi cymunedau yng Nghymru i adfer a gwella natur ac mae wedi'i dargedu at 50 y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru yn seiliedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD). Mae hefyd yn cefnogi prosiectau tyfu cymunedol unrhyw le yng Nghymru. Ei chyllideb yn 2021- 22 oedd £900,000 ac roedd £41,000 arall yn cael ei roi i Un Llais Cymru i gyflawni ei rôl o ymgysylltu â chynghorau tref a chymuned (TCC).

## 2. Amcanion Ymchwil a Methodoleg

2.1 Comisiynodd Llywodraeth Cymru Wavehill i wneud gwerthusiad o'r rhaglen LPfN ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021- 22, gan adeiladu ar werthusiad blwyddyn un y cynllun. Y cwestiynau ymchwil ar gyfer y gwerthusiad oedd: [1]

- I nodi pa effeithiau mae'r rhaglen LPfN wedi'i chael hyd yma ar greu 'natur ar stepen eich drws' ac wrth greu, adfer a gwella bioamrywiaeth.
- Nodi effeithiau'r rhaglen LPfN ar gymunedau lleol a'r unigolion sy'n rhan o'r prosiectau.
- Mae nodi i ba raddau mae'r tri chynllun a'r rhaglen yn ei chyfanrwydd yn cyflawni amcanion LPfN. Oes modd gwneud gwelliannau, o safbwynt ymgeiswyr prosiect, rheolwyr cynllun a rhanddeiliaid?

2.2 Oherwydd amseriad gwerthusiad blwyddyn un o'r rhaglen (sy'n cwmpasu blwyddyn ariannol 2020- 21) roedd y potensial i ddarparu tystiolaeth o effaith y rhaglen yn gyfyngedig. Felly, lle bo'n bosibl, nod y gwerthusiad presennol oedd archwilio'r prosiectau a gwmpesir yn 2021- 22 yn ogystal a'r rhai a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol (2020-21), yn enwedig o ran prosiectau lle mae eu heffeithiau yn cymryd mwy o amser i ddatblygu.

2.3 Mabwysiadwyd dull cymysg, a oedd yn cynnwys:

- Bu gweithdy ym mis Ionawr 2022 lle roedd unigolion ag arbenigedd a gwybodaeth am faterion natur a bioamrywiaeth a/neu gymunedol yn trafod sut y dylai llwyddiant y cynllun edrych.

---

[1] Gwerthusiad Lleoedd Lleol ar gyfer Rhaglen Natur: Blwyddyn Un (2020–2021) (llyw.cymru)

- Cyfweliadau lled-strwythuredig gyda phum aelod o staff rheoli a chyflawni yn y tri chorff cyflenwi a sefydliadau cefnogol (Ionawr-Ebrill 2022).
- Cyfweliadau lled-strwythuredig gyda chynrychiolwyr o un ar bymtheg (o'r un ar hugain) LNPs o bob cwr o Gymru (Chwefror–Ebrill 2022).
- Cafwyd arolwg ar-lein o ymgeiswyr grant llwyddiannus KWT -cafodd yr arolwg 105 o ymatebion, cyfradd ymateb o 13 y cant (Ebrill 2022).
- Cyfweliadau gyda chwe phrosiect NLHF a derbynwyr grant a dau gydlynydd LNP i lywio astudiaethau achos am y prosiectau y maent wedi'u datblygu.
- Dadansoddiad o ddogfennau a gynhyrchwyd gan bob un o'r cynlluniau sy'n dangos y data y maent wedi'u casglu drwy eu proses ymgeisio a monitro cynnydd yn ystod y flwyddyn.

2.4 Mae angen ystyried cyfyngiadau'r fethodoleg wrth ddehongli'r canfyddiadau. Mae rhain yn cynnwys:

- Oherwydd effaith barhaus pandemig COVID-19 ar gam gwaith maes y gwerthusiad yng Ngwanwyn 2022, roedd y mwyafrif o'r ymgysylltiad gyda arweinwyr prosiect sy'n rhan o wahanol ganghennau LPfN, yn hytrach na gyda'r grwpiau a chymunedau cyfranogol ehangach.
- Roedd yr arolygon ar gyfer gwerthusiad LPfN mewn perygl o ogwydd ymateb hunan-ddethol oherwydd gallai'r rhai oedd â theimladau cryfach (naill ai'n bositif neu'n negyddol) fod wedi bod yn fwy tebygol o ymateb. Ar ben hynny, oherwydd gorfodaethau GDPR y DU, dosbarthwyd arolygon i arweinwyr prosiect trwy reolwyr y cynllun o fewn KWT a'r NLHF. O ganlyniad, mae'n bosib bod y berthynas gyda rheolwr y cynllun wedi dylanwadu ar benderfyniad arweinwyr y prosiect i ymateb neu ddim.
- Dosbarthwyd arolwg ar-lein i dderbynwyr grant cangen NLHF y rhaglen (ochr yn ochr ag arolwg KWT a nodwyd uchod), ond roedd y gyfradd ymateb yn isel (dim ond pum wnaeth ymateb) yn golygu na ellid gwneud unrhyw ddadansoddiad. Roedd mewnwelediadau o gyflwyno'r cynllun a'i effaith felly yn dibynnu ar gyfweliadau rheoli a chyfweliadau gyda'r prosiectau a gwblhawyd yn 2020-21 yn ystod adeg y gwaith maes (Gwanwyn 2022); Dim ond un o'r prosiectau a ariennir yn 2021-22 oedd wedi ei gwblhau erbyn hynny.

## 3. Prif Ganfyddiadau ac Argymhellion

### Cymryd rhan a Chanlyniadau hyd yma

3.1 Canfu'r gwerthusiad fod tri cangen LPfN yn parhau i weithredu mewn modd gydweithioll, yn seiliedig ar allu sefydliadau i gyflawni'r gwahanol ymyriadau. Mae'r rhain yn amrywio o grwpiau ar raddfa fach sy'n cymryd rhan yn y cynllun KWT i sefydliadau cyfansoddiadol sy'n cyrchu grantiau NLHF ac, yn olaf, yr LNPs sydd wedi'u lleoli o fewn LAs a NPAs.

3.2 Mae'r effeithiau cadarnhaol ar y grwpiau a'r cyfranogwyr, sydd wedi eu creu trwy eu hymgysylltiad â threfniant a datblygiad y prosiect yn parhau i fod yn gliriach na'r effaith y mae'r cynllun wedi ei gael ar natur. Mae'r canfyddiad hwn yn gyson â adroddiad gwerthuso blwyddyn un ac mae i'w ddisgwyl oherwydd yr amser y mae'n ei gymryd i gyflawni (a gweld) canlyniadau natur tra gellir cyflawni rhai o amcanion cymunedol LPfN yn gyflymach. O'i gymharu â changhennau eraill LPfN, mae cangen KWT yn datblygu'n dda o ran nifer y prosiectau unigol sydd wedi'u cwblhau a'r allbynnau sydd yn gallu cael eu cofnodi ar amser ysgrifennu yr adroddiad yma.

3.3 Canfyddiad allweddol fodd bynnag yw bod blwyddyn dau o'r rhaglen wedi gweld lefelau gwell o ymgysylltu â grwpiau sydd bellaf o fyd natur. Mae cynllun KWT wedi gwneud ymdrech arbennig i ymgysylltu â grwpiau difreintiedig neu sydd wedi'u tangynrychioli yn ystod y cam ymgeisio, ond mae angen iddynt sicrhau bod modd dangos eu cyfranogiad yn ddiweddarach. Aeth bron i 90 y cant o becynnau KWT i leoliadau mewn ardaloedd trefol a rhannol-drefol. Yn y cyfamser, mae LNPs yn ymgysylltu'n gynyddol well â sefydliadau 'anhraddodiadol' sydd ddim,fel arfer, yn ymwneud â chynlluniau adfer natur. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod LPfN yn datblygu rôl wrth ymgysylltu â'r rhai na fyddai fel arfer yn rhan o gynlluniau amgylcheddol a natur.

3.4 Er hynny, mae rhywfaint o dyndra rhwng nodau'r programme i greu 'natur ar eich stepen drws' mewn ardaloedd o amddifadedd ac ardaloedd trefol neu rhannol-drefol, a'r mecanweithiau lledaenu ar gyfer y rhaglen, sef ledled Cymru. Mae manteision amlwg i'r cyllid hwn gael ei ddefnyddio ym mhob rhan o'r wlad, gan ddangos perthnasedd LPfN ym mhob maes. Eto i gyd, cydnabyddir bod hyn yn creu heriau o ran cwrdd â'r meini prawf mewn rhannau mwy gwledig o'r wlad (lle mae'n debygol y bydd mynediad gwell at natur beth bynnag) ac y bydd cyfleoedd yn gostwng mewn rhai ardaloedd, er enghraifft, gwyrddio'r stad gyhoeddus, wrth i'r rhaglen barhau.

3.5 Mae'r rhai sy'n ymwneud â'r dair gangen yn weddp; hyderus bod elfennau cymunedol y rhaglen yn cael eu bodloni trwy'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd, gydag arweinwyr prosiect yn adrodd bod y gweithgareddau wedi cefnogi llesiant y grwpiau cymunedol a'r gwirfoddolwyr. Mae arweinwyr prosiectau ar draws y canghennau hefyd yn gadarnhaol am yr ymgysylltu cymunedol cynnar â'r lleoliadau natur newydd sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd. Serch hynny, mae'r canfyddiadau hyn yn parhau'n anecdotaidd a bydd angen profion mwy cadarn yn y blynyddoedd i ddod i fod yn hyderus ei fod yn digwydd.

3.6 Awgrymodd rhanddeiliaid ag arbenigedd mewn ymgysylltu cymunedol a/neu natur y byddai mesur cynnydd yn yr agweddau canlynol yn cynnig metrigau addas - llesiant ymhlith cyfranogwyr, gwelliannau yn y ffordd y gwelir ardal ac ehangu gweithgaredd grŵp cymunedol i gefnogi safleoedd mewn ardaloedd prosiect. Nododd yr arbenigwyr hynny hefyd y gallai effeithiau bioamrywiaeth fod yn fach lle nad yw safleoedd prosiect yn cysylltu'n ddaearyddol â safleoedd eraill. Mae'n bwysig nodi mai prif nod LPfN yw cynyddu ymgysylltiad cymunedol â safleoedd natur. Ond, awgrymodd rhanddeiliaid y gallai cynllunio ehangach i gysylltu safleoedd gynnig rhai buddion i fioamrywiaeth ar yr un pryd.

3.7 Mae ymchwil ar LPfN hyd yma wedi canolbwyntio ar gyfranogwyr a'r rhai sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol â'r rhaglen. Rhan o'r rhesymeg dros LPfN yw bod 'natur ar stepen y drws' yn ceisio cynyddu agweddau cadarnhaol tuag at fyd natur. Felly, mae'n bwysig bod ymchwil yn y dyfodol yn deall ymwybyddiaeth ehangach prosiectau LPfN yn well ac a yw'n newid agweddau at fyd natur. Unwaith y bydd mwy o brosiectau'n cael eu cwblhau, bydd mwy o gyfleoedd i geisio ymgysylltu ag aelodau eraill o grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr sy'n cefnogi darpariad prosiectau, yn ogystal â grwpiau penodol y mae'r arweinwyr prosiect wedi bod yn ymgysylltu â nhw. Gallai ymchwil pellach ymgorffori amser i geisio hwyluso ymgysylltiad ag unigolion o'r fath, trwy arweinwyr prosiect, i gael eu barn. Gall ymgysylltu â'r gymuned yn ehangach fod yn fwy cymhleth ac mae angen dulliau mwy arloesol arnynt. Felly, gall fod yn briodol i'r gwaith ymchwil geisio targedu ardaloedd sydd yn agos at safleoedd neu geisio rhoi ymchwilwyr yn yr ardaloedd yma i ymgynghori â phobl sy'n defnyddio neu yn pasio safleoedd penodol.

3.8 Fodd bynnag, nododd rhanddeiliaid ag arbenigedd a gwybodaeth am natur a/neu ymgysylltu â'r gymuned, pa mor anodd yw priodoli newidiadau mewn agweddau cyhoeddus at brosiectau neu gynlluniau unigol. Serch hynny, mae angen i Lywodraeth

Cymru geisio deall a yw agweddau poblogaeth gyfan at fyd natur yn newid ac mae angen ystyried pa fecanweithiau y gellir eu defnyddio ar gyfer casglu'r data yma. Mae'r arolwg o gyfranogwyr prosiect LPfN ar gyfer yr adroddiad hwn yn dangos agweddau cadarnhaol cryf tuag at natur, ond nid yw'r grŵp hwn o reidrwydd yn adlewyrchu'r cyhoedd yn ehangach. Unwaith eto, dylai gwerthusiadau yn y dyfodol ystyried y ffordd orau o gael mynediad at farn gyhoeddus ehangach a nid dim ond y rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â phrosiectau LPfN.

3.9 **Argymhelliad 1:** Dylid ystyried y dull gorau o gasglu data er mwyn dangos a yw LPfN yn newid agweddau tuag at fyd natur ar draws Cymru. Dylai ymchwil pellach gynnwys rhai cymunedau sydd eisoes yn ymwneud ag LPfN, yn enwedig y rhai o grwpiau difreintiedig neu sydd wedi'u tangynrychioli, a'r rhai sy'n byw ac yn gweithio mewn ardaloedd cyfagos.

3.10 Roedd rhanddeiliaid arbenigol hefyd yn codi problemau gydag ansicrwydd y daith o allbynnau (gweithgareddau) sy'n gysylltiedig â natur i ganlyniadau. Roedden nhw'n dadlau bod nifer y safleoedd LPfN (yr allbwn) yn cynrychioli'r gwerth bioamrywiaeth posib y gall safle ei gyflawni. Bydd p'un a yw'r gwerth hwn yn cael ei gyflawni (y canlyniad) yn dibynnu ar sawl ffactor; er enghraifft, rheoli safleoedd parhaus a ffactorau amgylcheddol ehangach. Roedd y rhai a oedd wedi ymgysylltu fel rhan o'r gwerthusiad hwn yn gyffredinol yn hyderus y gellid cynnal eu safleoedd naill ai gan y grwpiau a oedd yn darparu'r prosiectau neu drwy gynlluniau eraill ar gyfer cynnal a chadw yn y dyfodol - er y nodwyd bod hyn yn ddibynnol ar staffio a/neu wirfoddolwyr. Unwaith eto, mae hyn yn rhywbeth y bydd angen i werthusiadau yn y dyfodol ei ystyried.

3.11 Mae rhanddeiliaid hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod tensiynau'n bodoli rhwng arferion graddfa fach LPfN, a'r gwerth bioamrywiaeth posibl y mae'n ei gynrychioli, a faint o waith sydd ei angen i fynd i'r afael â'r argyfwng natur. [2] Wrth i'r prosiectau mawr gyrraedd eu terfyn, bydd angen i LPfN ddangos llwyddiant trwy fwy o fonitro canlyniadau yn hytrach na mewnbynnau. Bydd hyn yn newid y ffocws o greu'r gofod i ddangos gwerth bioamrywiaeth cynyddol y prosiectau.

3.12 **Argymhelliad 2:** Wrth i'r rhaglen barhau, bydd angen i LPfN ganolbwyntio ar ganlyniadau, yn hytrach na mewnbynnau, ac mae angen ddatblygu mwy o fecanweithiau ar gyfer monitro a dangos y canlyniadau i ddangos bod gwerth bioamrywiaeth posibl safleoedd wedi'i gyflawni. Mae hyn yn cynnwys monitro prosiectau cynnar o flynyddoedd agoriadol LPfN i ddangos eu llwyddiant, neu ddysgu unrhyw wersi perthnasol, oherwydd gall canlyniadau natur gymryd amser.

### Materion Rheoli a Chyflawni

*Materion cyflawni*

3.13 Mae trafodaethau gyda'r rhai sy'n rheoli'r gwaith o gyflwyno cynllun KWT yn awgrymu bod amser ac ymdrech sylweddol yn mynd i gefnogi grwpiau cymunedol wrth iddyn wneud cais a darparu y pecynnau. Dywedodd cyfranogwyr hefyd y gall materion yn y gadwyn gyflenwi olygu nad yw pob elfen o'r pecyn ar gael ar ddiwrnod yr hyfforddiant, gan arwain at oedi ac, unwaith eto, costau ychwanegol. Mae'r rhain o bosib yn gostau sylweddol a di-sail sy'n cael eu hamsugno gan gangen KWT ac yn effeithio ar ei gyflwyniad. Mae hwn yn fater sydd angen i Lywodraeth Cymru ei fonitro.

---

[2] Cymru'n datgan argyfwng natur – Cynnal Cymru – Sustain Wales

*Amserlenni cyllido*

3.14 Roedd pryderon cyffredin am gyflawniad ar draws y tri chynllun, amserlenni cyllid yw un o'r rheiny. Roedd pryder o fewn cangen yr LNP am yr amserlen ar gyfer darparu prosiectau, o fewn y flwyddyn ariannol, a allai gael ei amharu yn aml o ganlyniad i broblemau yn y gadwyn gyflenwi neu'r angen i fyned caniatâd neu ddelio â sawl sefydliad. Cafodd prosiectau yn y gangen KWT a NLHF eu heffeithio hefyd gan oedi'r gadwyn gyflenwi; credwyd bod rhywfaint o hyn yn gysylltiedig â COVID-19 ac ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Bydd trydedd blwyddyn y prosiect yn datgelu a yw'r problemay hyn yn rhai dros dro a'u peidio.

3.15 Codwyd y mater o gyllid blwyddyn-sengl gan ystod o bobl gafodd eu cyfweld, gan gynnwys y rhai sy'n rheoli'r cynlluniau a chydlynwyr LNP. Yn bennaf, roedd y materion hynny'n ymwneud â'r gallu i gynllunio a rheoli'r prosiect yn effeithiol oherwydd yr angen i fodloni terfynau amser ariannu blwyddyn-sengl a'u cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ym mis Mawrth. Mae'n ymddangos bod y diffyg cyllid a gadarnhawyd ar gyfer y dyfodol hefyd yn arwain at faterion recriwtio a chadw staff gan nad oedd modd cynnig contractau mwy hirdymor i weithwyr presennol neu botensial. Roedd dadl hefyd y byddai cyllid aml-flwyddyn yn dangos ymrwymiad hirdymor i fynd i'r afael â'r argyfwng natur.

3.16 **Argymhelliad 3:** Lle bo'n bosib dylai Llywodraeth Cymru geisio sicrhau bod cyllid aml-flwyddyn ar gael ar gyfer LPfN er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu meddylfryd hirdymor am y rhaglen a natur yn gyffredinol.

*Awdurdod Lleol a gwaith Partneriaeth Natur Leol*

3.17 Cododd nifer o gydlynwyr LNP faterion am eu perthynas â'r awdurdod oedd yn gofalu amdanynt (LA neu NPA). Mae rhain yn cynnwys gwrthwynebiadau i brosiectau gan gynghorwyr a/neu anawsterau wrth ymwneud ag adrannau eraill o fewn yr LA. Ystyrid hyn yn bwysig er mwyn sicrhau nad oedd gweithgareddau LPfN yn digwydd ar wahân i wasanaethau a phrosesau eraill y LA.. Mewn rhai achosion, roedd angen newidiadau i brosesau a gwasanaethau eraill yr LA i weithredu prosiectau LPfN yn effeithiol. Er enghraifft, rhoi protocolau ar gyfer defnydd peiriannau mawr neu sicrhau bod strydoedd yn lân cyn torri glaswellt ar raddfa fawr. Mae angen felly ystyried sut i godi ymwybyddiaeth o bwrpas LPfN ymhlith cynghorwyr a'r ffordd orau o sicrhau ymrwymiad gan drannau eraill o fewn yr awdurdod.

3.18 **Argymhelliad 4:** Dylai cydlynwyr LNP ystyried sut i ddatblygu a chynnal perthnasoedd o fewn yr awdurdodau sydd yn gofalu amdanynt, trwry edrych ar arfer da a datblygiadau sy'n cael eu rhannu draws y rhwydwaith.

3.19 Canfuwyd bod aelodaeth pob LNP yn amrywio ledled Cymru, yn ogystal â'r modd y maent yn gweithredu. Gall hyn ddylanwadu ar eu perfformiad; Mae data monitro WCVA yn awgrymu bod rhai LNPs wedi eu trefnu yn well ac yn cael cymorth ehangach gan rwydwaith o bartneriaid. Mae hyn yn dangos bod angen gwneud mwy i gefnogi'r LNPs i ddatblygu ac ymgysylltu'n weithredol o fewn eu partneriaethau. Gall anghysondeb ymhlith yr LNPs hefyd arwain at anghydbwysedd yn y buddsoddiad ledled Cymru sydd ar gael gan Y Gronfa Her, sydd newydd ei chyflwyno ac sydd yn dosbarthu cyllid i brosiectau LNP ar sail mwy cystadleuol.

3.20 **Argymhelliad 5:** Dylid darparu cefnogaeth bellach i'r LNPs hynny y mae data monitro WCVA yn dangos nad ydynt yn gweithredu ac yn cyflawni ar y lefel gorau posibl, gan ddefnyddio arferion gorau sefydledig a nodi cyfleoedd ar gyfer gwelliannau.

*Llif a dilyniant prosiect*

3.21 O fewn cangen KWT, dywedodd llawer o arweinwyr grŵp cymunedol eu bod yn fwy tebygol o gefnogi gwariant ar natur yn lleol ac yn genedlaethol o ganlyniad i'w hymgysylltiad â LPfN, sy'n ganlyniad cadarnhaol. Yn gysylltiedig â hyn, datgelodd ymatebion i arolwg KWT bod llawer o grwpiau cymunedol cyfranogol yn gobeithio datblygu eu hymgysylltiad â natur ymhellach, ond nid o reidrwydd trwy LPfN. Mae hyn yn awgrymu bod llif posib o brosiectau pellach y gallai canghennau eraill o LPfN eu cefnogi, ond mae'n codi pryderon nad yw cyfleoedd o'r fath o reidrwydd yn cael eu deall yn dda ac yn cael eu marchnata i'r rhai sydd eisoes yn cymryd rhan yn y rhaglen (gweler yr argymhelliad isod).

3.22 Mae cangen NLHF wedi llwyddo i sicrhau bod cynigion yn parhau i gael eu cyflwyno i'r panel a bod y mwyafrif yn cael eu cymeradwyo. Amlygwyd bwysigrwydd ymgysylltu â darpar ymgeiswyr fel cam hanfodol wrth sicrhau ansawdd ceisiadau terfynol. Amlygwyd pwysigrwydd gwaith uniongyrchol gyda TCC hefyd. Fodd bynnag, roedd llai o ymgeiswyr yn ail flwyddyn y rhaglen, gan arwain at bryderon posibl ynghylch cynaliadwyedd y galw am gymorth yn y gangen hwn. Yn y tymor byr, ffordd o fynd i'r afael â hyn yw drwy ganolbwyntio ar y llif o ran y rhanddeiliaid a sefydliadau lleol sydd eisoes wedi cyrchu cangen KWT ac o bosibl â diddordeb mewn datblygu prosiectau pellach, fel y nodir uchod.

3.23 **Argymhelliad 6:** Mae angen llif prosiect clir ar gyfer cangen NLHF er mwyn sicrhau bod digon o geisiadau'n cael eu datblygu. Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi LPfN trwy ddatblygu cynllun cyfathrebu i dynnu sylw at sut y gall grwpiau sydd eisoes wedi cyrchu llinynnau eraill o LPfN ddatblygu ymhellach, yn enwedig trwy gangen NLHF.

Awduron: Dr Ian Johnson a Dr Nikola Vousden

wavehill
Social and economic research
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Adroddiad Ymchwil Llawn: Johnson, Ian; Vousden, Nikola (2023). *Gwerthusiad Lleoedd Lleol ar gyfer Natur 2021–22.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR report number 48/2023
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-lleoedd-lleol-ar-gyfer-natur-2021-22

Barn a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yw rhai'r ymchwilydd ac nid rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Aimee Marks
Is-adran Ymchwil a Gwybodaeth Gymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays, Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: ymchwilhinsawddacamgylchedd@llyw.cymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English

OGL © Hawlfraint y Goron Digidol ISBN 978-1-80535-763-6